The Statutory
Independent
Inquiry into
Grooming Gangs

**STRICTLY EMBARGOED UNTIL 09:00AM TUESDAY 31 MARCH 2026**

## Yr Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Meithrin Perthynas Amhriodol

## Cadeirydd a Phanel

Heddiw mae gan yr Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Meithrin Perthynas Amhriodol ei fandad ffurfiol. Rydym yn cyhoeddi ein Cylch Gorchwyl. Pan fydd y rhain yn cael eu cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 13 Ebrill, byddwn yn dechrau ein gwaith ymchwilio llawn.

Ac rwyf am fod yn glir, o'r dechrau, ynglŷn â beth mae hynny'n ei olygu, a beth rydym yn bwriadu ei wneud ag ef.

Yn ymuno â mi heddiw mae fy nghyd-aelodau o'r Panel, Zoë Billingham CBE ac Eleanor Kelly CBE.

Gyda'n gilydd, rydym yn dod â degawdau o brofiad o amddiffyn a hyrwyddo buddiannau plant, dwyn heddluoedd a sefydliadau i gyfrif, diogelu menywod a merched agored i niwed rhag trais a cham-drin, a darparu arweinyddiaeth leol gref mewn cyfnodau o argyfwng.

Ar draws ein gyrfaoedd, rydym wedi gweithio i sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu rhoi yn gyntaf, a bod eu profiadau personol yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u trin yn ofalus.

Rydym wedi treulio ein bywydau gwaith yn ymroddedig i wella'r systemau a fethodd y plant agored i niwed hyn.

Felly, gadewch i mi ddechrau gyda'r dioddefwyr a'r goroeswyr. Gyda'r plant.

**STRICTLY EMBARGOED UNTIL 09:00AM TUESDAY 31 MARCH 2026**

Cafodd plant ledled Cymru a Lloegr eu cam-drin yn rhywiol a'u hecsbloetio gan gangiau meithrin perthynas amhriodol. Ac mae hyn yn dal i ddigwydd. Cawsant eu treisio. Cawsant eu masnachu. Cawsant eu bygwth i dawelwch.

Nid oes dadl am hynny. Yr hyn sydd wedi cael ei herio, yr hyn sydd wedi cael ei leihau, ei egluro, neu ei gladdu am gyfnod rhy hir, yw pam mae'r sefydliadau sy'n bodoli i'w hamddiffyn mor aml yn dewis peidio â gweithredu.

Yn ystod yr ymgynghoriad a lywiodd ein Cylch Gorchwyl, clywsom yn uniongyrchol gan lawer o ddioddefwyr a goroeswyr.

Rydym am ddweud rhywbeth wrth bob dioddefwr, goroeswr ac aelod o'r teulu a allai fod yn gwylio neu'n darllen am hyn heddiw. Nid ffeil achos ydych chi. Nid ystadegyn ydych chi. Chi yw'r rheswm pam mae'r Ymchwiliad hwn yn bodoli. Bydd eich lleisiau'n llunio popeth a wnawn.

Rydym hefyd eisiau bod yn agored ynglŷn â'r hyn a glywsom yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Mae amheuaeth ddofn - amheuaeth gyfiawn - ynghylch a fydd yr Ymchwiliad hwn yn gwneud gwahaniaeth. Mae adolygiadau wedi'u cynnal o'r blaen ac mae adroddiadau wedi'u hysgrifennu. Mae argymhellion wedi casglu llwch. Rwy'n deall pam y bydd dioddefwyr, goroeswyr ac eraill yn gofyn: *pam y bydd hyn yn wahanol mewn unrhyw ffordd?*

Rwyf am ddweud hyn. Ni fyddwn yn aros blynyddoedd i ddweud wrth y cyhoedd beth rydym wedi'i ganfod. Lle gallwn, byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau wrth i ni fynd ymlaen, fel bod pob sefydliad rydym yn ymchwilio iddo yn gwybod beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos amdanynt.

Byddwn yn gorffen yr Ymchwiliad erbyn mis Mawrth 2029. Ond ni fydd cyfle i unrhyw un aros am adroddiad terfynol ac yna rheoli'r ymateb yn dawel.

Byddaf hefyd yn dweud hyn: bydd goroeswyr a dioddefwyr y troseddau hyn, a'r cyhoedd, yn gwylio pob symudiad a wnawn. Felly hefyd y Senedd. Byddwn yn nodi ein hargymhellion yn gyhoeddus ac yn glir. Ni allwn orfodi'r llywodraeth i weithredu. Ond gallwn – a byddwn – yn ei gwneud hi'n amhosibl esgus nad oes unrhyw ganfyddiadau'n bodoli.

Felly, beth fydd yr Ymchwiliad yn ei archwilio?

Byddwn yn edrych ar sut roedd gangiau meithrin perthynas amhriodol yn gweithredu, a sut roedden nhw'n gallu parhau i weithredu am gyhyd.

Byddwn yn archwilio beth oedd heddluoedd yn ei wybod, a beth wnaethon nhw, neu na wnaethon nhw, gyda'r wybodaeth honno.

Byddwn yn edrych ar awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac ysgolion.

A byddwn yn edrych ar y ffactorau diwylliannol a sefydliadol a arweiniodd at blant yn cael eu hanwybyddu, eu diystyru, neu mewn gormod o achosion, eu beio am eu cam-drin eu hunain.

Rydym wedi clywed ystod eang o safbwyntiau drwy ein hymgynghoriad – drwy'r ymatebion a gawsom i'n harolwg, yn uniongyrchol gan ddioddefwyr a goroeswyr, gan y sefydliadau sy'n eu cefnogi a chan y sefydliadau sydd wedi gweithio gyda nhw.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn gliriaf o'r ymgysylltiad hwnnw oedd bod angen i ni edrych yn ôl ymhellach os oeddem am ddeall patrymau cam-drin – felly byddwn nawr yn edrych yn ôl ar 30 mlynedd llawn – gan ddechrau ym 1996.

Roedd hefyd yn amlwg bod angen i ni edrych ar ethnigrwydd, diwylliant a chrefydd - nid yn unig drwy lens sut mae'r wladwriaeth yn ymateb - ond hefyd ar y rôl y gallent ei chwarae fel sbardun cam-drin.

**STRICTLY EMBARGOED UNTIL 09:00AM TUESDAY 31 MARCH 2026**

Clywsom fod angen atebolrwydd sefydliadau ac unigolion - yn ogystal â'r angen i sicrhau y gellid trosglwyddo'r holl dystiolaeth droseddol i Ymgyrch Beaconport - gan sicrhau na fydd sefydliadau'n gorfod ymchwilio eu hunain. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r Cylch Gorchwyl i fynd i'r afael â'r pwyntiau hynny.

Rwyf am fynd i'r afael ag un o'r ffactorau hynny'n uniongyrchol.

Mewn llawer o achosion, mae adroddiadau blaenorol wedi canfod, mai dynion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol penodol oedd y troseddwyr. Ni fyddwn yn osgoi ymchwilio i unrhyw ffactor a arweiniodd at gam-drin a chamfanteisio ar ddioddefwyr a goroeswyr gan gangiau meithrin perthynas amhriodol.

Gadewch i mi fod yn hollol glir: mae hyn yn cynnwys diwylliant, ethnigrwydd a chrefydd.

Rydym wedi clywed, mewn rhai achosion, bod heddweision a swyddogion yr heddlu wedi bod yn amharod i weithredu, yn amharod i ymchwilio neu erlyn, oherwydd pryderon ynghylch sut y gallai ymddangos.

Os felly y bu - mae'r penderfyniadau hynny wedi cael canlyniadau dinistriol. Plant a dalodd y pris amdano.

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw ffactor a gyfrannodd at batrymau cam-drin neu at sut a pham mae awdurdodau wedi methu dioddefwyr a goroeswyr. Byddwn yn cael ein harwain gan y dystiolaeth.

Byddwn yn archwilio hyn yn uniongyrchol, nid i stigmateiddio unrhyw gymuned, ond lle mae'r dystiolaeth yn mynnu hynny, ac oherwydd bod dioddefwyr a goroeswyr yn haeddu'r gwir.

Byddwn yn cynnal ymchwiliadau lleol ledled Cymru a Lloegr. Rydym eisoes wedi cytuno i ymchwilio i Oldham. Rydym yn gweithio'n gyflym i nodi'r meini prawf ar gyfer

dewis ardaloedd eraill, a byddwn yn cyhoeddi'r fframwaith ar gyfer sut rydym yn gwneud y dewisiadau hynny o fewn y tri mis nesaf.

Mae'r Ymchwiliad hwn yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth ac ar bob sefydliad y byddwn yn ei archwilio.

Rydym am gydnabod y gefnogaeth drawsbleidiol i sefydlu'r Ymchwiliad hwn. Mae hynny'n bwysig. Fel y mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrthym dro ar ôl tro dros y tri mis diwethaf, rhaid i amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol a chamfanteisio fod y tu hwnt i sgorio pwyntiau. Maent wedi dweud wrthym yn glir iawn eu bod eisiau atebion, nid dadleuon.

Rydym wedi cwrdd â gwleidyddion o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol dros yr wythnosau diwethaf, ac wedi cael ein calonogi gan y sgyrsiau adeiladol a'r penderfyniad a rennir ymhlith pawb yr ydym wedi cwrdd â nhw y bydd yr Ymchwiliad hwn yn llwyddo.

Nid yw annibyniaeth yn ffurfioldeb i ni — dyma'r sylfaen i bopeth a wnawn.

Gan fod gan ddioddefwyr a goroeswyr bob hawl i fod yn amheus, rwyf am fod yn fanwl gywir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ymrwymo iddo.

Byddwn yn dryloyw.

Byddwn yn cyhoeddi ein gwaith wrth i ni fynd ymlaen.

Byddwn yn cynnal gwrandawiadau cyhoeddus - yn agored, ac yn cael eu ffrydio'n fyw.

Ni fyddwn yn aros tair blynedd i ddweud wrth bobl beth rydym wedi'i ddarganfod.

Byddwn yn cymryd yr amser sydd ei angen ar y gwaith hwn, ond ni fyddwn yn gwastraffu diwrnod ohono.

The Statutory Independent **Inquiry into Grooming Gangs**

**STRICTLY EMBARGOED UNTIL 09:00AM TUESDAY 31 MARCH 2026**

Roedd y plant a gafodd eu cam-drin yn haeddu gwell. Roedd y dioddefwyr a'r goroeswyr a ddaeth ymlaen, yn aml ar gost bersonol enfawr, yn haeddu gwell.

Yr Ymchwiliad hwn yw ein hymateb i'r methiant hwnnw.

Byddwn yn dilyn y dystiolaeth.

Byddwn yn dwyn pobl i gyfrif, os oes angen.

A byddwn yn gwneud argymhellion sy'n ddifrifol, wedi'u hadeiladu i bara, ac os cânt eu gweithredu, byddant yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i atal y troseddau erchyll hyn yn y dyfodol ac yn bwysicach fyth - yn darparu atebion hir-ddisgwyliedig i ddioddefwyr a goroeswyr.

Diolch